**CYFANSODDIAD GUIDES CYMRU**

*Rhif Elusen Gofrestredig 521209*

## CYFLWYNIAD

Mae Guides Cymru wedi'i sefydlu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr The Guide Association (Rhif Elusen 306016) yn unol ag Is-Ddeddf 8.2 (C) Siarter Frenhinol The Guide Association, ar gyfer rheoli materion The Guide Association yng Nghymru.

'Girlguiding Cymru' yw enw gweithredu Guides Cymru.

Mae Bwrdd Girlguiding Cymru yn atebol i Fwrdd Ymddiriedolwyr Girlguiding am gyfeiriad a datblygiad cyffredinol egwyddorion, nodau, polisi, trefn, rheolau a chanllawiau The Guide Association, fel y nodir yn y Siarter Frenhinol ac Is-Ddeddfau ac yng nghyhoeddiad presennol Y Llawlyfyr Guiding.

Yr aelodau â phleidlais ar Fwrdd Girlguiding Cymru yw ymddiriedolwr elusen Girlguiding Cymru yn unol â darpariaethau perthnasol y Deddfau Elusennau.

Mae Bwrdd Girlguiding Cymru yn atebol i aelodaeth Girlguiding yng Nghymru, trwy Gyngor y Comisiynwyr Sir.

Mae Cyngor y Comisiynwyr Sir yn gyfrifol am dderbyn cyfrifon blynyddol a chynllun busnes Girlguiding Cymru. (Gweler 4)

## 1. AELODAETH

**1.1** Bydd gan Fwrdd Girlguiding Cymru yr aelodau canlynol:

Aelodau â phleidlais (Ymddiriedolwyr)
Aelodau Ex Officio:

- Prif Gomisiynydd* Girlguiding Cymru a fydd yn gadeirydd (oni bai ei fod wedi'i ddirprwyo i aelod arall o'r bwrdd)
- Dirprwy Brif Gomisiynydd / Gomisiynwyr*
- Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol (os nad y Prif Gomisiynydd)

Aelodau Etholedig:

- O leiaf pump a dim mwy na deg o Ymddiriedolwyr â sgiliau perthnasol ac yn ddelfrydol mae o leiaf un ohonynt rhwng 18 a 30 oed (adeg eu penodi).

Aelodau heb bleidlais
Yn bresennol pan gânt eu gwahodd:

- Llywydd, Girlguiding Cymru
- Prif Wirfoddolwr Broneirion
- Rheolwr Cyllid
- Ysgrifennydd (fel y penodwyd gan y Prif Gomisiynydd)
- Aelodau cyfetholedig Bwrdd Girlguiding Cymru os cânt eu penodi
- Cynrychiolwyr eraill Girlguiding Cymru neu bersonau priodol sydd yn cael eu gwahodd gan y Cadeirydd i fod yn bresennol.

Lle rhennir rôl aelod â phleidlais, fel y caniateir ym mholisïau a rheolau The Guide Association, rhaid trafod a chytuno ar ddechrau'r penodiad pa unigolyn fydd â hawl i fynychu a derbyn rhybudd a chofnodion cyfarfodydd.

*Yn dynodi Aelodau'r Bwrdd sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr yr Is-Gwmni Masnachu, Broneirion Cyfyngedig.

**1.2 Aelodau Etholedig**
Bydd aelodau etholedig Bwrdd Girlguiding Cymru yn cael eu hethol gan aelodau â phleidlais Bwrdd Girlguiding Cymru i weinyddu am gyfnod o ddwy i bum mlynedd. Gofynnir i ddarpar aelodau lenwi ffurflen gais yn manylu ar y sgiliau a'r profiad a fydd o fudd i Fwrdd Girlguiding Cymru yn eu barn nhw.

**1.3 Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais)**
Gellir penodi aelodau cyfetholedig gan Fwrdd Girlguiding Cymru ar unrhyw adeg am gyfnod yn ôl yr angen (uchafswm o dair blynedd).

1.4 **Diswyddo Aelodau**
Bydd aelodau Bwrdd Girlguiding Cymru yn cael eu diswyddo os byddant yn torri Cod Ymddygiad Ymddiriedolwyr; yn methu â mynychu tri chyfarfod neu fwy; yn meddu ar wrthdaro buddiannau heb ei ddatgan neu anorchfygol; yn anghymwys yn gyfreithiol rhag bod yn ymddiriedolwr; yn dod yn analluog yn feddygol neu'n niweidio enw da'r elusen.

**1.5 Cynnull Cyfarfodydd**
Bydd Bwrdd Girlguiding Cymru yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn gyda chyfarfodydd ychwanegol trwy gynadledda ffôn. Bydd yr Ysgrifennydd yn rhoi o leiaf ddeng niwrnod o rybudd ysgrifenedig o bob cyfarfod i holl aelodau Bwrdd Girlguiding Cymru, gan nodi agenda'r cyfarfod.

**1.6 Agendâu a Chofnodion**

**1.6.1 Cofnodion**
Bydd yr Ysgrifennydd yn cymryd cofnodion o bob cyfarfod ac yn gyfrifol am gadw'r copi cytunedig ac wedi'i lofnodi o Gofnodion pob cyfarfod.

**1.6.2 Adroddiadau**
Bydd yr Ysgrifennydd yn gofyn am adroddiadau gan Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol, Rheolwr Cyllid a Phrif Wirfoddolwr Broneirion o leiaf bythefnos cyn y cyfarfod.

**1.6.3 Dosbarthiad**
**1.6.3.1** Bydd Agendâu a Chofnodion pob cyfarfod ac unrhyw bapurau neu hysbysiadau cysylltiedig yn cael eu dosbarthu gan yr Ysgrifennydd trwy e-bost cyn y cyfarfod.

**1.6.3.2** Ni fydd methiant unrhyw aelod Bwrdd Girlguiding Cymru i dderbyn yr agenda neu bapurau agenda yn annilysu unrhyw benderfyniad a wneir yn y cyfarfod.

**1.6.3.3** Bydd y Prif Gomisiynydd yn darparu adrodd o gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i Gyngor y Comisiynwyr Sir (gweler adran 4).

**1.7 Cynnal Cyfarfodydd**

**1.7.1 Cadeirydd**

Bydd Prif Gomisiynydd Girlguiding Cymru yn cadeirio holl gyfarfodydd Bwrdd Girlguiding Cymru oni bai bod y rôl yn cael ei dirprwyo i aelod arall o'r bwrdd.

Os yw'r Prif Gomisiynydd a'r Cadeirydd enwebedig yn absennol, yna bydd aelod o'r Bwrdd yn cael ei ddewis gan yr aelodau â phleidlais sy'n bresennol yn y cyfarfod.

**1.7.2 Pleidleisio**

Bydd gan bob aelod â phleidlais o Fwrdd Girlguiding Cymru sy'n bresennol ac sydd â hawl i bleidleisio mewn cyfarfod, ynghyd â'r Cadeirydd, hawl i un bleidlais yn unig, gyda'r Cadeirydd yn cael y bleidlais fwrw.

Os oes gan unrhyw un o Fwrdd Girlguiding Cymru fwy nag un rôl, dim ond un bleidlais sydd gan y person hwnnw.

Gwneir penderfyniadau drwy fwyafrif syml o bleidleisiau. Os na cheir mwyafrif, bydd gan y Cadeirydd y bleidlais fwrw yn ogystal â phleidlais drafodol y Cadeirydd. Mae angen pleidlais fwyafrif syml ar faterion ariannol. Mae materion cyfansoddiadol yn gofyn am bleidlais mwyafrif o ddwy ran o dair o'r rhai sy'n bresennol ac sydd â hawl i bleidleisio a chadarnhad gan Gyngor y Comisiynwyr Sir.

**1.7.3 Cworwm**

Bydd cworwm yn cynnwys o leiaf pedwar aelod â phleidlais.

**1.7.4 Yr Iaith Gymraeg**

Rhaid i adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno yn yr iaith Gymraeg gael eu cyflwyno gyda chyfieithiad Saesneg. Os oes angen cyfieithydd ar gyfer cyfarfod, yna rhaid rhoi rhybudd pedwar diwrnod ar ddeg i'r Ysgrifennydd.

**1.8 Penderfyniadau y tu allan i gyfarfodydd arferol**

Bydd penderfyniad ysgrifenedig a ddosbarthir gan yr Ysgrifennydd ac a gymeradwywyd gan yr holl ymddiriedolwyr sydd â hawl i bleidleisio mewn cyfarfod Bwrdd Girlguiding Cymru a gyflwynir â llaw, drwy'r post neu e-bost mor ddilys ac mor effeithiol â phe bai wedi cael ei basio mewn cyfarfod.

## 2. CYFRIFOLDEBAU

**2.1 Prif Gyfrifoldebau**

Bydd prif gyfrifoldebau Bwrdd Girlguiding Cymru yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, y canlynol:

a) Darparu arweinyddiaeth a bod yn gyfrifol am gyfeiriad strategol a darpariaeth geidio yng Nghymru

b) Meithrin twf ac ysbryd The Guide Association, cynnal a chymhwyso ei werthoedd ac egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth yng Nghymru

c) Sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol i ac o Girlguiding Cymru a Bwrdd Ymddiriedolwyr Girlguiding yn cael ei chyfathrebu'n effeithiol

d) Goruchwylio cyllid Girlguiding Cymru (gweler 2.2)

e) Arwain Girlguiding Cymru yn effeithiol trwy osod a chymeradwyo polisïau, cynlluniau a chyllidebau i gyflawni ei amcanion, a monitro perfformiad yn eu herbyn

f) Sicrhau bod Girlguiding Cymru yn cydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaeth a rheoliad perthnasol a gofynion y Comisiwn Elusennau a The Guide Association

g) Gosod a chynnal fframwaith dirprwyo a rheolaeth fewnol

h) Adolygu'n rheolaidd y risgiau y mae Girlguiding yn eu hwynebu, cytuno neu gadarnhau pob polisi a phenderfyniad ar faterion a allai greu risg sylweddol i Girlguiding Cymru, ariannol neu fel arall

i) Cyflwyno adroddiad i Gyngor y Comisiynwyr Sir yn y Cyfarfod Blynyddol

**2.2 Cyllid**

Bydd cyfrifoldebau ariannol Bwrdd Girlguiding Cymru yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i'r canlynol:

a) Goruchwylio cyllid Girlguiding Cymru a'i is gwmnïau yn y fath fodd fel eu bod yn sicrhau diddyledrwydd a chryfder ariannol, a sicrhau bod cyfrifon priodol yn cael eu chadw a'u harchwilio unwaith y flwyddyn yn unol â gofynion y Deddfau Elusennau

b) Gweithredu'n ddoeth i ddiogelu asedau ac eiddo Girlguiding Cymru, a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio i gyflawni ei amcanion

c) Cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol Blynyddol ac Adroddiad yr Ymddiriedolwyr Elusennau a baratowyd yn unol â darpariaethau perthnasol y Deddfau Elusennau a chyflwyno'r Datganiadau Ariannol Blynyddol a'r Adroddiad i gyd-gyfarfod blynyddol Bwrdd Girlguiding Cymru a Chyngor y Comisiynwyr Sir i'w mabwysiadu

d) Agor cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu yn enw Girlguiding Cymru o bryd i'w gilydd fel yr ystyrir yn hwylus. Rhaid awdurdodi llofnodwyr sieciau a chyfarwyddiadau bancio eraill fel y'u pennir o bryd i'w gilydd gan Fwrdd Girlguiding Cymru a'u cofnodi yn y cofnodion

e) Caffael yswiriant indemniad ymddiriedolwyr fel y caniateir dan y Deddfau Elusennau

**2.3 Pwyllgorau**

2.3.1 Gall y Bwrdd sefydlu unrhyw Bwyllgorau y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae Pwyllgorau Bwrdd Girlguiding Cymru (os ydynt wedi'u sefydlu), gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Weithrediadau, Ynysgain, Cyfeillion a Dyfodol y Ddraig angen cylch gorchwyl y mae angen i Fwrdd Girlguiding Cymru ei gymeradwyo. Penodir Cadeiryddion y Pwyllgorau gan y Prif Gomisiynydd ar ôl ymgynghori â Chyngor y Comisiynwyr Sir a chyda chymeradwyaeth Bwrdd Girlguiding Cymru

2.3.2 Penodir Cadeiryddion Pwyllgorau am gyfnod cychwynnol cyntaf o 3 blynedd gydag estyniad dewisol o 2 flynedd yn ôl disgresiwn y Prif Gomisiynydd. Ni all Cadeiryddion sy'n ymddeol gael eu hail-benodi am 3 flynedd arall ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Gall Cadeiryddion Pwyllgorau sefydlu is-bwyllgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen fel y bo'n briodol gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Prif Gomisiynydd.

**2.4 Pwyllgorau ad-hoc**

Gall Bwrdd Girlguiding Cymru neu'r Prif Gomisiynydd sefydlu neu diddymu pwyllgorau ad-hoc o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen. Nid oes rhaid i aelodau'r pwyllgorau ad-hoc hyn fod yn aelodau Bwrdd Girlguiding Cymru.

Bydd Bwrdd Girlguiding Cymru yn penderfynu a fydd gan y pwyllgor ad-hoc gylch gorchwyl ysgrifenedig ffurfiol ac os felly rhaid iddo gadarnhau'r rhain ac unrhyw newidiadau iddynt. Enwebir y Cadeirydd gan y Prif Gomisiynydd ac mae'n ei chynrychioli ar y pwyllgor.

**2.5 Grwpiau Gorchwyl a Gorffen**

Gyda chymeradwyaeth Bwrdd Girlguiding Cymru/Bwrdd Gweithredol, gall y Prif Gomisiynydd sefydlu a diddymu grwpiau gorchwyl a gorffen o bryd i'w gilydd ar gyfer tasgau penodol neu ddibenion eraill. Bydd y Prif Gomisiynydd yn penodi Cadeirydd pob grŵp gorchwyl a gorffen.

Bydd y Prif Gomisiynydd a Chadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn penderfynu ar gylch gorchwyl y grŵp a bydd y Cadeirydd yn cynrychioli'r Prif Gomisiynydd ac yn adrodd ar ddatblygiad iddi mewn modd amserol.

**2.6 Dirprwyo Cyfrifoldebau**

Gall Bwrdd Girlguiding Cymru ddirprwyo awdurdod i agweddau penodol ar gyfrifoldebau Girlguiding Cymru i unrhyw Bwyllgor, a all weithredu ar ei ran, ond bydd Bwrdd Girlguiding Cymru yn cadw'r atebolrwydd terfynol ar gyfer penderfyniadau a wneir.

## 3. CYFANSODDIAD

**3.1 Diwygiadau**

Dim ond mewn cyfarfod cyffredinol Bwrdd Girlguiding Cymru neu gyfarfod arbennig y Grŵp hwnnw a drefnir am y pwrpas mewn ymgynghoriad â Chyngor y Comisiynwyr Sir y gellir diwygio'r cyfansoddiad hwn. Ni fydd y Cyfansoddiad hwn nac unrhyw ddiwygiad i'r Cyfansoddiad yn effeithiol nes y caiff ei gymeradwyo gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Girlguiding.

**3.2 Cofnodion**

Bydd copi o'r Cyfansoddiad hwn, ac ar bob achlysur cofnod o unrhyw newid yn y Cyfansoddiad, yn cael ei lofnodi gan y Prif Gomisiynydd ac Ymddiriedolwr arall ar gyfer Girlguiding Cymru, wedi'i ddyddio a'i adael ym Mhencadlys The Guide Association.

## 4. CYNGOR Y COMISIYNWYR SIR

Mae Cyngor y Comisiynwyr Sir Girlguiding Cymru a gadeirir gan y Prif Gomisiynydd yn cynnwys y Comisiynwyr Sir Cymru i gyd. Bydd y Cyngor yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn gyda'r Prif Gomisiynydd a'i Dirprwy(on) yn ogystal â Chyfarfod Blynyddol Girlguiding Cymru. Penodir Ysgrifennydd gan y Prif Gomisiynydd.

**4.1 Prif gyfrifoldebau**

Bydd prif gyfrifoldebau Cyngor y Comisiynwyr Sir yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, y canlynol:

a) Mabwysiadu'r Datganiadau Ariannol Blynyddol a chynlluniau dyfodol Girlguiding Cymru a derbyn adroddiadau gan y Bwrdd Gweithredol
b) Darparu arweinyddiaeth a bod yn gyfrifol am gyfeiriad strategol a darpariaeth geidio yng Nghymru

c) Trafod materion gyda'r Prif Gomisiynydd a'i Dirprwy(on)
d) Adolygu'r datblygiad tuag at y targedau a nodir yng Nghynlluniau Busnes y Sir
e) Trafod sut mae gweithredoedd Girlguiding Cymru yn cael effaith ar Gynlluniau a Rhaglenni Sir
f) Trafod materion Girlguiding UK
g) Darparu llif cyfathrebu dwyffordd rhwng y Siroedd a Girlguiding UK
i) Cymeradwyo penodiad Llywydd ac Is-Lywyddion Girlguiding Cymru

**4.2 Llywydd**
Gall y Prif Gomisiynydd, gyda chymeradwyaeth Cyngor y Comisiynwyr Sir, wahodd rhywun i wasanaethu fel Llywydd Girlguiding Cymru am gyfnod o dair blynedd gyda dwy flynedd ychwanegol dewisol. Mewn amgylchiadau arbennig, gellir ailbenodi'r Llywydd am ddwy flynedd arall. Bydd y Llywydd yn aelod heb bleidlais o'r Bwrdd.

**4.3 Is-Lywyddion**
Gall y Prif Gomisiynydd, gyda chymeradwyaeth Cyngor y Comisiynwyr Sir, wahodd pobl i wasanaethu fel Is-Lywyddion Girlguiding Cymru, sydd yn swydd anrhydeddus a ddelir am oes.

## 5. CYFARFOD BLYNYDDOL

**5.1** Bydd cyd-Gyfarfod Blynyddol rhwng Cyngor y Comisiynwyr Sir a Bwrdd Girlguiding Cymru, lle gofynnir i Gyngor y Comisiynwyr Sir dderbyn adroddiadau, mabwysiadu'r Datganiadau Ariannol Blynyddol a chymeradwyo'r Cynllun Busnes.

Bydd Llywydd Girlguiding Cymru, neu os nad yw ar gael y Prif Gomisiynydd neu aelod a enwebwyd gan y Prif Gomisiynydd, yn cadeirio'r Cyfarfod Blynyddol.

**Aelodau â phleidlais**
Prif Gomisiynydd
Dirprwy Brif Gomisiynydd / Gomisiynwyr
Aelodau â phleidlais Bwrdd Girlguiding Cymru
Aelodau Cyngor y Comisiynwyr Sir

Gellir gwahodd yr Aelodau canlynol i fod yn bresennol, ond ni fydd ganddynt bleidlais:
Y Llywydd
Cyn Lywyddion
Is Lywyddion
Cyn-Brif Gomisiynwyr
Cyn Ddirprwy Brif Gomisiynwyr

**5.2 Agenda a Chofnodion**

**5.2.1 Cofnodion**
Bydd yr Ysgrifennydd yn cymryd cofnodion o bob Cyfarfod Blynyddol ac yn gyfrifol am gadw copi cytunedig ac wedi'i lofnodi o Gofnodion pob cyfarfod.

**5.2.2 Adroddiadau**
Bydd yr Ysgrifennydd yn gofyn am adroddiadau **ysgrifenedig** os oes angen gan Gadeiryddion pob Pwyllgor perthnasol cyn y cyfarfod.

**5.2.3 Dosbarthiad**
Bydd Agendâu a Chofnodion pob Cyfarfod Blynyddol ac unrhyw bapurau a hysbysiadau cysylltiedig yn cael eu dosbarthu gan yr Ysgrifennydd trwy e-bost (i gyfeiriad a

ddarperir at y diben) i holl aelodau Bwrdd Girlguiding Cymru, Cyngor y Comisiynwyr Sir a'r Llywydd.

## 6. ADOLYGIAD AELODAU

**Gall y Bwrdd benderfynu a yw'n briodol cynnal Adolygiad Aelodau.**

Bydd Adolygiad Aelodau Girlguiding Cymru yn cael ei gadeirio gan y Llywydd neu, os nad yw ar gael y Prif Gomisiynydd neu aelod Bwrdd Girlguiding Cymru a enwebwyd gan y Prif Gomisiynydd.

Gwahoddir holl aelodau Girlguiding Cymru i fod yn bresennol i glywed Adroddiad y Prif Gomisiynydd.

## 7. MABWYSIADU

Mabwysiadwyd y Cyfansoddiad hwn drwy benderfyniad arferol cyfarfod Bwrdd Girlguiding Cymru a gynhaliwyd ar 2 Medi 2019 ac fe'i cymeradwywyd trwy benderfyniad Bwrdd Ymddiriedolwyr Girlguiding The Guide Association ar 28 Medi 2019.

Ar ran Girlguiding Cymru

______________________ **Prif Gomisiynydd Girlguiding Cymru**

______________________ **Ymddiriedolwr**

2 Medi 2019
______________________ **Dyddiad**

Ar ran Bwrdd Ymddiriedolwyr Girlguiding The Guide Association

______________________ **Cadeirydd y Bwrdd**

______________________ **Ymddiriedolwr**

28 Medi 2019
______________________ **Dyddiad**

**CONSTITUTION OF GUIDES CYMRU**

*Registered Charity No. 521209*

**INTRODUCTION**

Guides Cymru is set up by the Board of Trustees of The Guide Association (Charity Number 306016) in accordance with Bye Law 8.2 (C) of the Royal Charter of The Guide Association, for the management of The Guide Association's affairs in Wales.

Guides Cymru has the operating name 'Girlguiding Cymru'.

The Girlguiding Cymru Board is responsible to the Girlguiding Board of Trustees for the direction and general development of the principles, aims, policy, organisation, rules and guidelines of The Guide Association, as set out in The Royal Charter and Bye Laws and the current issue of the Guiding manual.

The voting members of the Girlguiding Cymru Board are the charity trustees of Girlguiding Cymru in accordance with the relevant provisions of the Charities Acts.

The Girlguiding Cymru Board is accountable to the membership of Girlguiding in Wales, through the County Commissioners' Council.

The County Commissioners' Council is responsible for accepting the Girlguiding Cymru annual accounts and business plan. (See 4)

**1. MEMBERSHIP**

**1.1** The Girlguiding Cymru Board shall have the following members:

Voting Members (Trustees)
Ex Officio Members:

- Chief Commissioner* for Girlguiding Cymru who shall be the chair (unless delegated to another board member)
- Deputy Chief Commissioner(s)*
- Chair of Operational Board (if not the Chief Commissioner)

Elected Members:

- A minimum of five and no more than ten Trustees with relevant skills and ideally at least one of whom is aged between 18 and 30 years (at appointment).

Non-voting members
In attendance when invited:

- President, Girlguiding Cymru
- Lead Volunteer for Broneirion
- Finance Manager
- Secretary (as appointed by the Chief Commissioner)
- Co-opted members of the Girlguiding Cymru Board if appointed
- Other representatives of Girlguiding Cymru or appropriate persons invited by the Chair to attend a meeting.

Where a voting member's role is shared, as permitted within The Guide Association's policies and rules, it must be discussed and agreed at the beginning of the appointment which individual will be entitled to attend and receive notice and minutes of meetings.

*Denotes Members of the Board who are also Directors of the Trading Subsidiary, Broneirion Limited.

**1.2 Elected Members**

The elected members of the Girlguiding Cymru Board shall be elected by the voting members of the Girlguiding Cymru Board, to serve for a period of two to five years. Prospective members will be asked to complete an application form detailing the skills and experience, which they think will be of benefit to the Girlguiding Cymru Board.

**1.3 Co-opted Members (Non-Voting)**

Co-opted members may be appointed by the Girlguiding Cymru Board at any time for a period as required (maximum of three years).

1.4 **Removal of Members**

Members of the Girlguiding Cymru Board will be removed if they breach the Trustee Code of Conduct; fail to attend three or more meetings; have an undeclared or irresolvable conflict of interest; are legally disqualified from being a trustee; are medically incapacitated or damages the charity's reputation.

**1.5 Convening Meetings**

The Girlguiding Cymru Board shall meet a minimum of three times a year with additional meetings via telephone conferencing. The Secretary shall give at least ten days' written notice of all meetings to all Girlguiding Cymru Board members, specifying the agenda for the meeting.

**1.6 Agendas and Minutes**

**1.6.1 Minutes**

The Secretary shall take minutes of each meeting and be responsible for keeping the agreed and signed copy of the Minutes of each meeting.

**1.6.2 Reports**

The Secretary shall request reports from the Chair of the Operational Board, Finance Manager and Lead Volunteer for Broneirion at least two weeks before the meeting.

**1.6.3 Circulation**

**1.6.3.1** Agendas and Minutes of each meeting and any associated papers and notices shall be circulated by the Secretary electronically prior to the meeting.

**1.6.3.2** The failure of any member of the Girlguiding Cymru Board to receive notice agenda or agenda papers shall not invalidate any decision taken at the meeting.

**1.6.3.3** The Chief Commissioner will provide a report from the Board of Trustees meetings to the County Commissioners' Council (see section 4)

**1.7 Conduct of meetings**

**1.7.1 Chair**

The Chief Commissioner for Girlguiding Cymru shall chair all meetings of the Girlguiding Cymru Board unless the role is delegated to another member of the board.

If the Chief Commissioner and nominated Chair are absent then a member of the Board will be chosen by the voting members present at the meeting.

**1.7.2 Voting**

Every voting member of the Girlguiding Cymru Board present and entitled to vote at a meeting, together with the Chair, shall be entitled to one vote only, with the Chair having a casting vote.

If any one of the Girlguiding Cymru Board has more than one role that person only has one vote.

Decisions shall be made by a simple majority of votes. In the event of no majority, the Chair shall have the casting vote in addition to the Chair's deliberative vote. Financial matters require a simple majority vote. Constitutional matters require a two-thirds majority vote of those present and entitled to vote and ratification by the County Commissioners' Council.

**1.7.3 Quorum**

A quorum shall consist of at least four voting members.

**1.7.4 Welsh Language**

Reports for the Girlguiding Cymru Board submitted in the Welsh Language must be accompanied by an English translation. If a translator is required for a meeting then fourteen days' notice must be given to the Secretary.

**1.8 Resolutions outside of normal meetings**

A written resolution circulated by the Secretary and approved by all the trustees entitled to vote at a Girlguiding Cymru Board Meeting delivered by hand, post or email shall be as valid and as effectual as if it had been passed at a meeting.

**2. FUNCTION**

**2.1 Primary Functions**

The primary responsibilities of Girlguiding Cymru Board shall include, but not be limited to, the following:

a) To provide leadership and be responsible for the strategic direction and ultimate delivery of guiding in Wales

b) To foster the growth and spirit of The Guide Association, uphold and apply its values and the principles of equality and diversity within Wales

c) To ensure all relevant information to and from Girlguiding Cymru and Girlguiding Board of Trustees is effectively communicated

d) To oversee the finances of Girlguiding Cymru (see 2.2)

e) To lead Girlguiding Cymru effectively by setting and approving policies, plans and budgets to achieve its objectives, and monitoring performance against them

f) To ensure that Girlguiding Cymru complies with all relevant legislation and regulations and the requirements of the Charities Commission and The Guide Association

g) To set and maintain a framework of delegation and internal control

h) To regularly review the risks to which Girlguiding Cymru is subject, agree or ratify all policies and decisions on matters, which might create significant risk to Girlguiding Cymru, financial or otherwise.

i) To present a report to the County Commissioners' Council at the Annual Meeting.

**2.2 Finance**

The financial responsibilities of the Girlguiding Cymru Board shall include, but not be limited to, the following:

a) To oversee the finances of Girlguiding Cymru and its subsidiaries in such a way as to ensure solvency and financial strength, and to ensure that proper accounts are kept and audited once a year in accordance with the requirements of the Charities Acts.

b) To act prudently to protect the assets and property of Girlguiding Cymru, and ensure that they are used to deliver its objectives.

c) To approve the Annual Financial Statements and Charity Trustees Report prepared in accordance with the relevant provisions of the Charities Acts and to submit the Annual Financial Statements and Report to the joint annual meeting of the Girlguiding Cymru Board and the County Commissioners' Council for adoption.

d) To open bank or building society accounts in the name of Girlguiding Cymru from time to time as considered expedient. The signatories of cheques and other banking instructions must be authorised as determined from time to time by the Girlguiding Cymru Board and recorded in the minutes.

e) To procure trustee indemnity Insurance as permitted under the Charities Acts.

**2.3 Committees**

2.3.1 The Board may form such Committees as it believes necessary to carry out its duties. Committees of the Girlguiding Cymru Board (if established), including but not limited to Operations, Ynysgain, Friends and Dyfodol y Ddraig require terms of reference which need to be approved by the Girlguiding Cymru Board. The Chairs of the Committees are appointed by the Chief Commissioner having consulted with the County Commissioners' Council and with the approval of the Girlguiding Cymru Board.

2.3.2 The Chairs of Committees are appointed for an initial term of office of 3 years with an optional extension of 2 years at the discretion of the Chief Commissioner. Retiring Chairs cannot be re-appointed for another 3 years except in exceptional circumstances. Chairs of Committees may form sub-committees and task and finish groups as appropriate with the prior approval of the Chief Commissioner.

**2.4 Ad-hoc committees**

Girlguiding Cymru Board or the Chief Commissioner may set up and disband ad hoc committees as it may from time to time deem necessary. The members of such Ad-hoc committees need not be members of the Girlguiding Cymru Board.

The Girlguiding Cymru Board shall determine whether or not the ad-hoc committee is to have formal written terms of reference and if so must ratify these and any amendments to them. The Chair is nominated by the Chief Commissioner and is her representative on the committee.

**2.5 Task and Finish Groups**

The Chief Commissioner, with the approval of the Girlguiding Cymru Board/Operational Board may set up and disband task and finish groups as required from time to time for specific tasks or other purposes. The Chief Commissioner shall appoint the Chair of each task and finish group.

The Chief Commissioner and the Chair of the task and finish group shall agree the terms of reference of the group and the Chair shall represent the Chief Commissioner and report progress to her in a timely fashion.

**2.6 Delegation of Responsibilities**

Authority for certain aspects of Girlguiding Cymru's responsibilities may be delegated by the Girlguiding Cymru Board to any Committee, which may act on its behalf, but the Girlguiding Cymru Board shall retain ultimate accountability for the decisions taken.

## 3. CONSTITUTION

**3.1 Amendment**

This Constitution may only be amended by resolution at an ordinary meeting of the Girlguiding Cymru Board or a special meeting of that Group convened for the purpose in consultation with the County Commissioners' Council. Neither this Constitution nor any amendment to this Constitution shall have effect until approved by Girlguiding Board of Trustees.

**3.2 Records**

A copy of this Constitution, and on each occasion a minute of any change in the Constitution, shall be signed by the Chief Commissioner and another Trustee for Girlguiding Cymru, dated and deposited at The Guide Association Headquarters.

## 4. COUNTY COMMISSIONERS' COUNCIL

The Girlguiding Cymru County Commissioners' Council chaired by the Chief Commissioner comprises all the Welsh County Commissioners. The Council will meet at least twice a year with the Chief Commissioner and her Deputy(s) in addition to the Girlguiding Cymru Annual Meeting. A Secretary will be appointed by the Chief Commissioner.

**4.1 Primary Functions**

The primary responsibilities of the County Commissioners' Council shall include, but not be limited to the following:

a) To adopt the Annual Financial Statements and future plans of Girlguiding Cymru and to receive reports from the Operational Board

b) To provide leadership and be responsible for the strategic direction and ultimate delivery of guiding in Wales
c) To discuss issues with the Chief Commissioner and her Deputy(s)
d) To review progress towards targets set out in the County Business Plans
e) To discuss how Girlguiding Cymru operations impact on County Plans and Programmes
h) To discuss issues cascaded from Girlguiding UK
i) To provide a two-way communication flow between the Counties and Girlguiding UK
i) To approve the appointment of a President and Vice-Presidents of Girlguiding Cymru.

**4.2 President**

The Chief Commissioner with the approval of the County Commissioners' Council may invite someone to serve as President of Girlguiding Cymru for a term of three years with an optional additional two years. In special circumstances, the President can be re-appointed for a further two years. The president shall be a non-voting member of the Board.

**4.3 Vice Presidents**

The Chief Commissioner with the approval of the County Commissioners' Council may invite people to serve as Vice Presidents of Girlguiding Cymru, this being an honorary position held for life.

## 5. ANNUAL MEETING

**5.1** There will be a joint Annual Meeting of the County Commissioners' Council and the Girlguiding Cymru Board, at which the County Commissioners' Council will be asked to receive reports, adopt the Annual Financial Statements and approve the Business Plan

The President of Girlguiding Cymru or if unavailable the Chief Commissioner or a member nominated by the Chief Commissioner, will chair the Annual Meeting.

**Voting Members**

Chief Commissioner
Deputy Chief Commissioner(s)
The Voting Members of the Girlguiding Cymru Board
The Members of the County Commissioners' Council

The following Members may be invited to attend, but will not have a vote:
The President
Past Presidents
Vice Presidents
Past Chief Commissioners
Past Deputy Chief Commissioners

**5.2 Agenda and Minutes**

**5.2.1 Minutes**

The Secretary shall take minutes of each Annual Meeting and be responsible for keeping the agreed and signed copy of the Minutes of each meeting.

### 5.2.2 Reports

The Secretary shall request **written** reports if required from the Chairs of all relevant Committees prior to the meeting.

### 5.2.3 Circulation

Agendas and Minutes of each Annual Meeting and any associated papers and notices shall be circulated by the Secretary by email (to an address provided for the purpose) to all members of the Girlguiding Cymru Board, the County Commissioners' Council and the President.

## 6. MEMBERS REVIEW

**The Board may decide if it is appropriate to hold a Members Review.**

The Members Review of Girlguiding Cymru shall be chaired by the President or if unavailable the Chief Commissioner or a member of the Girlguiding Cymru Board nominated by the Chief Commissioner.

All Members of Girlguiding Cymru are invited to attend to receive the Chief Commissioners' Report.

## 7. ADOPTION

This Constitution was adopted by ordinary resolution of a meeting of the Board of Girlguiding Cymru held on 2 September 2019 and was approved by resolution of the Girlguiding Board of Trustees of The Guide Association on 28 September 2019.

On behalf of Girlguiding Cymru

**Chief Commissioner for Girlguiding Cymru**

**Trustee**

2 September 2019 **Date**

On behalf of the Girlguiding Board of Trustees of the Guide Association

**Chair of the Board**

**Trustee**

28 September 2019 **Date**